# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 20 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cymoedd y De

**C7 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer adfywio economi Cymoedd y De? (OAQ20333)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, 'Cymru'n Ennill', yn nodi sut y bwriadwn drawsnewid economi Cymru. Mae Cymoedd y De yn gymwys am y lefelau uchaf o gymorth. Yr ydym yn gwneud cynnydd llwyddiannus o ran y rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd: mae dros 1,000 o brosiectau wedi cael cynnig cymorth o dros £425 miliwn. Hefyd, hyd yn hyn, mae 60 y cant o gyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi ei ddyrannu i helpu i gynnal adfywiad cymunedol yng Nghymoedd y De.

### Datblygiad Economaidd yn Ne-orllewin Cymru

**C8 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hybu datblygiad economaidd yn ne-orllewin Cymru? (OAQ20364) [W]

**Andrew Davies:** Y De-orllewin yw'r unig ranbarth yng Nghymru sy'n gyfan gwbl o fewn ffiniau ardal Amcan 1. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu hinsawdd a fydd yn galluogi busnesau i ffynnu ledled Cymru. Mae Tîm Cymru yn gwneud pob ymdrech i gefnogi buddsoddiadau yn yr ardal hon, sy'n ardal a gynorthwyir yn haen 1.

Yr oedd yn bleser gwneud cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ynghylch prosiect Bluestone Leisure yn Sir Benfro. Bydd y prosiect hwn yn creu 600 o swyddi, a chefnogir y prosiect â phecyn cymorth o £16.5 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru a Bwrdd Croeso Cymru. Hefyd, cyhoeddais heddiw bod £2.6 miliwn o arian Amcan 1 wedi'i neilltuo ar gyfer yr Amgueddfa Diwydiant a Môr Genedlaethol yn Abertawe.

### Ffyniant Economaidd

**C9 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad i wasgaru ffyniant economaidd i bob rhan o Gymru? (OAQ20355) [W]

**Andrew Davies:** Dymuniad Llywodraeth y Cynulliad, drwy 'Cymru'n Ennill', yw y bydd safon byw yng Nghymru yn cyfateb i safon y DU o fewn cenhedlaeth, ac y bydd Cymru yn ffynnu. Bydd y ffyniant hwnnw'n gynaliadwy ac wedi ei ledaenu'n fwy cyfartal. Mae'r arwyddion o gynnydd eisoes yn galonogol. Mae'r cyhoeddiadau diweddar yn dangos cynnydd yn nifer y buddsoddiadau sy'n llifo i mewn i orllewin Cymru. Cyflwynais adroddiad ar gynnydd 'Cymru'n Ennill' i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 31 Hydref 2002.

**Busnesau Bach**

**C10 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda busnesau bach yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (OAQ20341)

**Andrew Davies:** Bu imi ymweld â nifer o gwmnïau yng Nghymru ers imi gael fy mhenodi yn Weinidog dros Ddatblygu Economaidd. Yr wyf wedi cynnal trafodaethau gyda phobl busnes yn uniongyrchol a chyda'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar fusnesau unigol a'r economi ehangach. Yr wyf hefyd yn aelod o Gyngor Partneriaeth Busnes y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n fforwm unigryw y gall busnesau ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at ddatblygu polisi.

**Gwasanaethau Band Eang yn Islwyn**

**C11 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau band eang yn Islwyn? (OAQ20360)

**Andrew Davies:** Mae cysylltiad band eang ar gael drwy linellau a brydlesir gan BT. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno cynllun cymhorthdal lloerennau band eang ledled Cymru, sy'n gostwng cost band eang lle nad oes llinell danysgrifio ddigidol anghymesur ar gael—mae ar gael i fusnesau yn Islwyn. Mae Islwyn yn rhan o'r broses o gyflwyno rhwydwaith dysgu gydol oes Llywodraeth y Cynulliad ledled Cymru. Mae ein buddsoddiad yn y rhwydwaith hwn, a'r offer aml-gyfrwng cysylltiedig, wedi golygu bod nifer o ysgolion, canolfannau dysgu a llyfrgelloedd yn yr ardal wedi gallu gosod band eang a dechrau gweld y budd a geir ohono. Mae Islwyn hefyd yn rhan o'r broses o gyflwyno ledled Cymru rwydwaith y gwasanaeth iechyd, DAWN 2—y rhwydwaith digidol ar gyfer Cymru gyfan—sy'n galluogi pob ysbyty a meddygfa meddyg teulu yng Nghymru i ddefnyddio band eang a gweld ei fuddiannau.

**Grantiau a Chefnogaeth Busnes**

**C12 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth grantiau a chefnogaeth busnes i gwmnïau cynhenid Cymreig? (OAQ20371) [W]

**Andrew Davies:** Er 1 Ebrill 2002, o'r 120 cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol, gwnaed 89 cynnig gwerth £18.2 miliwn i gwmnïau cynhenid o Gymru. Bydd hyn yn annog buddsoddiad o £58 miliwn o du'r sector preifat, gan greu 1,705 o swyddi a diogelu 399 o swyddi. Yn ogystal, dros yr un cyfnod, cynigiwyd 140 o grantiau buddsoddi'r Cynulliad—gwerth £4.7 miliwn—i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru—yr oedd bron pob un ohonynt yn gwmni cynhenid—i gefnogi buddsoddiad o £15.6 miliwn, gan greu 216 o swyddi newydd a chadw 1,165 o swyddi.

**Diwydiant Gweithgynhyrchu**

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae'n ei roi i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? (OAQ20344)

**Andrew Davies:** Ceir gan Dîm Cymru ddarpariaeth gynhwysfawr o gymorth a chyngor i'r diwydiant gweithgynhyrchu. Yn ogystal â chymorth rhanbarthol dewisol Llywodraeth y Cynulliad a chynlluniau grantiau buddsoddi'r Cynulliad, mae rhaglenni datblygu busnes yn annog cwmnïau i arloesi ac ychwanegu mwy o werth i'w cynnyrch. Er enghraifft, mae Sbardun Cymru yn fenter ar gyfer sector moduron Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi fforymau awyrofod ac electroneg Cymru. Mae'r rhain yn creu partneriaethau pwysig rhwng y diwydiant a'r sector cyhoeddus, gan sicrhau bod ein rhaglenni'n effro i'w hanghenion.

**Gweithgynhyrchu yn Sir Gaerfyrddin**

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swyddi sydd wedi'u colli yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y chwe mis diwethaf? (OAQ20349)

**Andrew Davies:** Er y collwyd nifer o swyddi mewn rhai cwmnïau gweithgynhyrchu, mae diweithdra yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol, ar gyfer y flwyddyn hyd Fedi, wedi disgyn 0.4 y cant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio ar y cyd i ddenu buddsoddiad ym myd busnes Sir Gaerfyrddin yn ogystal â rhannau eraill o Gymru, gan gysylltu hyn â chadw a chreu swyddi newydd. Yn ogystal, mae cymorth gan Dysgu ac Addysgu Cymru a'r gwasanaethau cyflogi, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad i'r unigolion dan sylw.

### Rhaglenni Adfywio Cymunedol (Amcan 1)

**C15 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian Amcan 1 sydd eisoes wedi'i ddyrannu i raglenni adfywio cymunedol o'i gymharu â thargedau neilltuo? (OAQ20381) [W]

**Andrew Davies:** Ddiwedd mis Hydref 2002, yr oedd £22.44 miliwn wedi ei ymrwymo i brosiectau blaenoriaeth 3 (adfywio economaidd cymunedol) y rhaglen Amcan 1, o'i gymharu â rhagolwg y cynllun monitro a busnes blynyddol ar gyfer 2002, sef £33.2 miliwn. Yr oedd £11.47 miliwn ychwanegol yn y broses o gael ei arfarnu. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, partneriaeth strategaeth asedau y gymuned a'r bartneriaeth ranbarthol economaidd gymunedol yn ystyried ffyrdd o gynyddu'r gyfradd ymrwymo.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

### Cyllidebau Iechyd

**C10 David Melding:** Pryd y gwnaiff y Gweinidog gyhoeddi a ydyw'r cyllidebau iechyd dangosol ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn mynd i barhau wedi'u rhewi ai peidio? (OAQ20398)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Gwneir penderfyniadau ar ddosrannu'r arian wrth gefn ar gyfer y blynyddoedd i ddod yng nghylchoedd cynllunio cyllidebau 2003 a 2004.

### Prosiectau Menter Cyllid Preifat

**C11 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyhoeddi cost prosiectau menter cyllid preifat y cytunwyd arnynt cyn creu'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ20408)

**Edwina Hart:** Dim.

### Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

**C12 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi sylwadau ar y berthynas rhwng hyblygrwydd diwedd blwyddyn a lefelau'r cronfeydd wrth-gefn a ddyfynnwyd yn y gyllideb? (OAQ20394)

**Edwina Hart:** Nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng hyblygrwydd diwedd blwyddyn a lefelau'r cronfeydd wrth-gefn a ddyfynnwyd yn y gyllideb. Ni chynhwysir hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y tablau cyllideb a gyhoeddir am ei fod yn cynrychioli adnoddau nas gwariwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly, caiff ei drin ar wahân i'r dyraniadau ychwanegol yn y gyllideb. Fodd bynnag, cyhoeddais dabl ar wahân yn rhoi manylion y dyraniadau ychwanegol o hyblygrwydd diwedd blwyddyn ar gyfer 2003-04.

## Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**C13 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gynyddu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer amaethyddiaeth er mwyn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol? (OAQ20390)

**Edwina Hart:** Nid oes angen gwneud hynny. Mae darpariaeth sylweddol ychwanegol yn y gyllideb i gynllun Tir Gofal, gan gynnwys £10.5 miliwn yn 2005-06 ar gyfer cynllun amaeth-amgylcheddol ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Mae Tir Gofal wedi disodli cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill er 1999, ac mae gostyngiad yng ngwariant y llinellau cyllidebol hynny yn dangos y bydd nifer y cytundebau sydd ar glawr yn lleihau yn gyson dros y pedair blynedd nesaf.

## Cwpan Ryder 2010

**C14 Elin Jones:** Pa gynrychiolaethau a dderbyniodd y Gweinidog gan y gymuned chwaraeon cyn dyfarnu £3.5 miliwn y flwyddyn i linell gyllideb Cwpan Ryder 2010 yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2003-04 i 2005-06? (OAQ20410)

**Edwina Hart:** Cefnogodd Cymru benbaladr gais Cymru i sicrhau Cwpan Ryder 2010, gan gynnwys y gymuned chwaraeon dan arweiniad Cyngor Chwaraeon Cymru. Bydd yr adnoddau a ddyrannwyd gennyf o gymorth i gyflawni'r ymroddiadau blynyddol a wnaed fel rhan o gais Cymru. Cydnabyddir y manteision a'r cyfleoedd sylweddol a ddaw i'r economi, i dwristiaeth ac i chwaraeon yn y blynyddoedd hyd at 2010 a thu hwnt yn sgîl cynnal Cwpan Ryder.

## Cyllid ar gyfer y Portffolio Datblygu Economaidd

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwahaniaeth rhwng y cyllid a neilltuwyd ar gyfer y portffolio datblygu economaidd yn y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol? (OAQ20401)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at y tablau anodedig a ddosbarthwyd gennyf i'r Aelodau ar 6 Tachwedd yn dilyn y ddadl ar y gyllideb derfynol yn y Cyfarfod Llawn. Maent yn egluro'r holl newidiadau i'r portffolio datblygu economaidd rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.